Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Potteries

## Dyddiad yr arolygiad:  Rhagfyr 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â The Potteries

Mae The Potteries yn ysgol annibynnol gofrestredig, a agorodd ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r ystafell ddosbarth mewn tŷ mawr yn Aber-miwl ger y Drenewydd, sydd hefyd yn gartref plant. Mae The Potteries yn ganolfan asesu; mae disgyblion yn mynychu rhaglen 26 wythnos yn yr ysgol cyn symud ymlaen i leoliadau hirdymor.

Mae'r perchennog, CareTech UK, yn gwmni cyfyngedig sy'n berchen ar gartrefi plant ledled Cymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae dau ddisgybl gwrywaidd, 11-13 oed, ar gofrestr yr ysgol. Mae gan y ddau blentyn statws plant sy'n derbyn gofal ac maent yn dod o awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan y ddau ohonynt Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP). Y prif angen a nodwyd yw anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers 2012. Mae 26 o staff cymorth ar draws y meysydd gofal ac addysg, sy'n cynnwys dau reolwr ac un athro, sef y pennaeth.

Cynhaliwyd arolygiad diweddaraf yr ysgol ym mis Tachwedd 2017 a chynhaliwyd yr ymweliad monitro blynyddol diweddaraf ym mis Medi 2018.

## Y prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu meithringar ac ysgogol i ddisgyblion ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae’r pennaeth yn frwdfrydig ac mae ganddo ymdeimlad cadarn o ddiben. Mae ganddo ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu.

Mae’r pennaeth yn annog disgyblion i gymryd diddordeb, mwynhau eu dysgu a herio’u hunain. Mae ganddo ddealltwriaeth drylwyr o anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ac mae’n meithrin perthynas waith hynod gadarnhaol ac ymddiriedus gyda nhw. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth reoli eu hymddygiad yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn ogystal, mae’r pennaeth yn cynllunio cyfleoedd dysgu difyr sy’n diddori a symbylu’r disgyblion. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion lefelau uchel o ymgysylltiad â’u dysgu.

Mae’r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau addysgol cyffrous fel helfeydd sborion yn yr ardal ac ymweliadau â’r ganolfan ddringo dan do yn Telford. Mae’r ymweliadau hyn yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

### Meysydd i’w datblygu

Er bod y perchennog wedi sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth priodol ar waith ar gyfer staff gofal a benodwyd yn ddiweddar, nid yw’r prosesau ar gyfer cofnodi gwiriadau cyn cyflogaeth ar gyfer staff addysgu a gyflogir yn yr ysgol yn ddigon trylwyr.

Mae’r pennaeth yn defnyddio profion safonol yn effeithiol i sefydlu gwaelodlin disgyblion ar draws amrywiaeth o fedrau, ac i sefydlu lefel eu lles. Fodd bynnag, mae diffyg cynllunio strategol ar draws y cwricwlwm i sicrhau cynnydd mewn meysydd medrau, fel llythrennedd.

Mae staff o gartref plant cysylltiedig y cwmni yn darparu cymorth dysgu addas yn yr ysgol. Mae’r staff hyn wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol priodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o les cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, cyfyngedig yw dealltwriaeth llawer ohonynt o’r strategaethau a’r medrau perthnasol i gefnogi datblygiad medrau a dysgu ffurfiol disgyblion yn briodol.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwella'r cynllunio strategol a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod gan staff cymorth fedrau a hyfforddiant addas i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion

## Cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

### A1. Mynd at Lywodraeth Cymru i ofyn am newid perthnasol yn ysgol The Potteries

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi codi adeilad newydd i gynyddu'r mannau addysgu. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnig lle dysgu hyblyg ychwanegol. Mae'r pennaeth wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i hwyluso'r newid perthnasol hwn.

### A2. Arfarnu effaith camau i wella llythrennedd ar draws y cwricwlwm er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol

Ers yr ymweliad monitro diwethaf yn 2018, mae'r pennaeth wedi cymryd amrywiaeth o gamau addas yn gysylltiedig â datblygu gweithgareddau ymhellach i wella llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, a'u gwerthuso. Mae ffocws cliriach erbyn hyn ar yr angen i fonitro cynnydd disgyblion yn natblygiad eu medrau llythrennedd.

Mae dogfennau cyn-lleoli yn rhoi man cychwyn ystyrlon i'r ysgol werthuso lefel llythrennedd disgyblion adeg mynediad. Mae gwybodaeth o brofion gwaelodlin a gynhelir pan fydd y disgybl yn cyrraedd yn ategu'r wybodaeth hon. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn nodi'r diffygion ym medrau llythrennedd disgyblion yn gywir ac yn llunio cynllun i ymateb yn briodol i'r meysydd angen hyn. Bellach, mae gan bob disgybl o leiaf ddau darged llythrennedd yn eu cynllun addysg unigol (CAU) ac mae'r rhain yn bwrpasol i anghenion unigol pob disgybl.

Yn ogystal, mae'r pennaeth wedi adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer darllen. Gyda chefnogaeth gan ysgol uwchradd leol, mae wedi cryfhau ystod y deunydd sydd ar gael i ddisgyblion ei ddarllen, yn y dosbarth ac er mwynhad.

Mae staff yn cofnodi cyfleoedd llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, er enghraifft yn ystod ymweliadau addysgol ac amser chwaraeon a hamdden. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion hyn yn cofnodi ansawdd y gweithgareddau llythrennedd hyn nac yn cynllunio ar gyfer unrhyw gynnydd yn lefel y medr sy'n ofynnol. Mae'r pennaeth wedi gwerthuso'r dull hwn yn gywir ac yn cydnabod bod angen cynllunio ar gyfer dilyniant yn natblygiad medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys eu medrau llythrennedd.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 3.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

4 © Sicrhau bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal, cyn cadarnhau penodiad pob aelod staff, i gadarnhau pwy ydynt, eu ffitrwydd meddygol, hanes eu cyflogaeth flaenorol, eu geirdaon cymeriad a, lle y bo'n briodol, ystyried cymwysterau a geirdaon proffesiynol wrth benderfynu p'un a fydd eu penodiad yn cael ei gadarnhau.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Yn ystod yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/02/2023